

GWERTHUSIAD TESSE O COFIA DDWEUD. CADWA'N DDIOGEL

- FFURFLEN WYBODAETH AR GYFER RHINIENI/GOFALWYR O FLWYDDYN 3 A BLWYDDYN 6 DISGYBLION

BETH YW PWRPAS YR YMCHWIL?

Efallai eich bod yn cofio bod eich plentyn, chwe mis yn ôl, wedi cwblhau arolwg yn yr ysgol ar gyfer astudiaeth TESSE yr NSPCC . Bydd y gwerthusiad yn archwilio effaith Cofia Ddweud Cadw'n Ddiogel ar ddysgu plant am fwlio a mathau eraill o gam-drin. Yn gyffredinol, bydd tua 90 o ysgolion ledled y Deyrnas Unedig yn cymryd rhan yn y gwerthusiad hwn. Am fwy o wybodaeth, gweler: <https://learning.nspcc.org.uk/services/speak-out-stay-safe/>

PWY SY'N GWNEUD YR YMCHWIL?

Rydym nawr yn ailadrodd yr arolwg gyda disgyblion blwyddyn 3 a blwyddyn 6 er mwyn gweld a fu unrhyw newid yng ngwybodaeth a dealltwriaeth plant yn ystod y chwe mis diwethaf.

Rydym yn dîm annibynnol o ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli mewn sawl Prifysgol yn y DU, dan arweiniad Prifysgol Central Lancashire (UCLan, Lloegr).

Fy enw i yw Farwa Batool o University of Central Lancashire a byddaf yn cynnal goruchwyliaeth o'r ymchwil yn ysgol eich plentyn. Cymeradwywyd yr ymchwil gan bwyllgorau moeseg yr NSPCC ac UCLan.

OES RHAIND I FY MHLEYNTYN GYMRYD RHAN YN YR YMCHWIL?

Na. Mae cyfranogiad plant yn yr ymchwil yn gwbl wirfoddol. Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno i'ch plentyn gymryd rhan, gallant benderfynu ar y diwrnod os nad ydyn nhw eisiau cymryd rhan. Nid oes atebion cywir nac anghywir a bydd eich plentyn yn gallu newid ei feddwl am gymryd rhan ar unrhyw adeg.

OS YW FY MHLENTYN YN CYMRYD RHAN, BETH FYDD YN EI WNEUD?

Rydym yn gofyn i blant gwblhau holiadur byr sy'n addas ar gyfer y dosbarth am eu dealltwriaeth o faterion fel bwlio a cham-drin a sut i geisio cymorth. Bydd y llyfr gweithgaredd yn cael ei gwblhau ar gyfrifiaduron yr ysgol / ar dabled. Byddwn hefyd yn gofyn i blant ym Mlwyddyn 6 am eu teimladau a'u llesiant. Bydd y llyfr gweithgaredd yn cael ei gwblhau o fewn un wers. Dyma fydd y cyfle olaf i'ch plentyn gymryd rhan.

SUT GALLAF GYTUNO I'M PLENTYN ATEB YR HOLIADUR AR Y TABLED?

Os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan wrth gwblhau llyfr gweithgareddau, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Fodd bynnag, os NAD YDYCH am i'ch plentyn gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, e-bostiwch neu ffoniwch yr ysgol trwy **1st October 2020**. Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn fodlon i'ch plentyn gymryd rhan oni bai bod yr ysgol yn clywed fel arall.

BETH OS YDW I AM
NEWID FY MEDDWL AM
EU CYFRANOGIAD YN
HWYRACH YMLAEN?

FYDD Y WYBODAETH
YN CAEL EI GADW YN
GYFRINACHOL?

SUT BYDD Y WYBODAETH
YN CAEL EI DDEFNYDDIO A'I
STORIO?

BETH OS YDWI AM
WNEUD CWYN AM YR
YMCHWIL?

BETH OS HOFFWN GAEL
RHAGOR O
WYBODAETH AM
WERTHUSIAD TESSE?

Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl hyd at **19th October 2020**. Os penderfynwch dynnu eich caniatâd yn ôl, cysylltwch â ni gyda'r ysgol erbyn y dyddiad hwnnw.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei gadw yn ddienw ac yn gyfrinachol. Yr unig eithriad i hyn fyddai pe baem yn darganfod bod plentyn mewn perygl o niwed, ac os felly byddwn yn hysbysu'r ysgol yn unol â gweithdrefnau NSPCC.

Ni fydd eich plentyn nac ysgol eich plentyn yn cael eu enwi mewn unrhyw gyhoeddiadau neu adroddiadau. Byddwn yn darparu cod adnabod unigryw i bob plentyn ac ni fydd unrhyw enwau ynghlwm wrth yr ymatebion. Byddwn yn storio gwybodaeth yn ddiogel mewn ffeiliau a ddiogelir gan gyfrinair yn y Brifysgol am 5 mlynedd yn unol â chanllawiau'r Brifysgol, ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio. Bydd pob copi papur yn cael ei storio mewn cypyrddau dan glo.

Mae'r NSPCC yn ystyried mai'r sail gyfreithlon dros ddal a defnyddio data personol ar gyfer yr ymchwil hon yw bod gennym ddiddordebau dilys wrth wneud hynny. Mae hyn oherwydd bod data personol yn angenrheidiol ar gyfer yr astudiaeth hon, y credwn y bydd yn arwain at ganlyniadau dysgu pwysig. Byddwn yn cadw'r wybodaeth mewn modd cyfrinachol a diogel.

Os ydych am gwyno am unrhyw ran o'r gwerthusiad hwn, gallwch siarad ag unrhyw aelod o staff yr NSPCC. Gallwch hefyd ffonio tîm Gofal Cefnogwyr NSPCC ar 020 7825 2505 neu e-bostio supportercare@nspcc.org.uk. Dywedwch wrthynt eich bod yn cysylltu â nhw am Werthusiad TESSE. Neu gallwch gysylltu â'r Athro Nicky Stanley, Ymchwilydd Arweiniol, Prifysgol Central Lancashire, nstanley@uclan.ac.uk neu swyddog moeseg y Brifysgol ethicsinfo@uclan.ac.uk.

Os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth neu os hoffech wybod mwy am y prosiect, cysylltwch â ni Farwa Batool gan ddefnyddio y cyfeiriad isod. Gallwch hefyd gysylltu â ni yn dilyn ymlaen o'r astudiaeth i gael crynodeb o'r canfyddiadau. Dylai hyn fod ar gael yn gynnar yn 2021.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen hwn

Cofion gorau

Farwa Batool

fbatool@uclan.ac.uk

University of Central Lancashire

Fylde Road

PR1 2HE